# Cylch Gorchwyl — Pwyllgor Ansawdd

## 1 Cyfansoddiad

1.1 Mae Pwyllgor i Fwrdd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (enw brand Medr) a adwaenir fel y **Pwyllgor Ansawdd** (y Pwyllgor) wedi cael ei sefydlu â'r Cylch Gorchwyl a'r Rheolau Sefydlog canlynol, y cytunwyd arnynt trwy benderfyniad gan y Bwrdd dyddiedig Gorffennaf 2024. Mae hwn yn un o Bwyllgorau statudol y Comisiwn.

1.2 Ceir cyd-ddibyniaethau rhwng gwaith a chyngor y pwyllgor hwn a meysydd eraill o fewn gwaith Medr gan gynnwys, ymhlith eraill, cyllid, cofrestru, a'i ddyletswyddau strategol. Felly bydd cyngor ac argymhellion y Pwyllgor yn goleuo gwaith ehangach Medr.

## 2 Cylch Gorchwyl

2.1 Dyletswyddau penodol y Pwyllgor yw:

- (i) Cynghori'r Bwrdd ynghylch ansawdd yr holl addysg drydyddol a gyllidir neu a sicrheir fel arall gan Medr, fel a nodir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, gan gynnwys darpariaeth a gyflwynir trwy drefniadau partneriaeth, a pha un a yw'n diwallu anghenion rhesymol dygwyr; bydd hefyd yn cynghori ynghylch unrhyw ddyletswyddau sy'n weddill mewn perthynas ag ansawdd o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, fel y bo'n briodol;
- (ii) Cynghori ynghylch dyletswyddau strategol Medr fel y maent yn berthnasol i ansawdd, yn enwedig cyfle cyfartal, gan gynnwys cyfranogiad, cadw, a chyrhaeddiad myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol; a hybu addysg drydyddol trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog o'r un ansawdd ac yn cyrraedd yr un safonau â darpariaeth cyfrwng Saesneg;
- (iii) Diffinio'r hyn a olygir gan ansawdd profiad academaidd, a chwmpas ei rôl, gan gydnabod cysylltiadau â phwyllgorau a grwpiau eraill y Bwrdd.
- (iv) Ystyried ansawdd y profiad academaidd i ddysgwyr[1], ac ansawdd profiad ehangach myfyrwyr gyda'r cwmpas a ddiffinnir yn 2.1.(ii), ar draws pob rhan o'r cyfnod ôl-16, gan gwmpasu goruchwyliaeth ar drothwyon ansawdd, ac ar wella'n barhaus. Bydd hyn yn cael ei oleuo gan gyngor Fforwm Llais Myfyrwyr/ Dysgwyr.
- (v) Cynghori ynghylch partneriaeth â dysgwyr/myfyrwyr mewn ansawdd a monitro hynny ynghyd â sicrhau bod hynny'n cael ei wreiddio ar draws pob rhan o ddarpariaeth ôl-16, gan gynnwys trwy oruchwylio gwaith i ddatblygu a monitro'r cod ymgysylltu â dysgwyr.
- (vi) Adolygu trefniadau i asesu ansawdd addysg drydyddol a, lle y bo'n briodol, gweithio gydag eraill i sefydlu trefniadau newydd neu ddiwygiedig.
- (vii) Darparu goruchwyliaeth ar ddatblygiad polisi mewn perthynas ag ansawdd addysg drydyddol, gan gynnwys canllawiau sy'n ymwneud â chynlluniau

[1] Bydd hyn yn cynnwys profiad yr holl ddysgwyr, h.y. dysgwyr a addysgir, seiliedig-ar-waith, dysgwyr o bell, a myfyrwyr ymchwil ôl-radd. Fodd bynnag, ni fydd yn cwmpasu cynnwys yr ymchwil yn yr olaf o'r rhain.

amddiffyn dysgwyr a chwynion, yn unol â nodau ac amcanion bwriadedig Medr.

(viii) Cynghori'r Bwrdd ynghylch sut orau i integreiddio polisïau ac ymyriadau mewn perthynas ag ansawdd a gwella'n barhaus o fewn goruchwyliaeth Medr ar berfformiad ar draws y sector trydyddol.

(ix) Darparu goruchwyliaeth ar fathau newydd ac sy'n dod i'r amlwg o ddarpariaeth addysg drydyddol, i sicrhau eu bod o ansawdd priodol.

(x) Ystyried sut y gallai trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer pob rhan o'r system drydyddol gael eu hystyried yn holistaidd a'u cysoni, er mwyn lleihau i'r eithaf y baich ar ddarparwyr.

(xi) Ystyried unrhyw faterion a atgyfeirir at y Pwyllgor neu a ddirprwyir iddo gan y Bwrdd.

## 3 Rheolau Sefydlog

3.1 Bydd Rheolau Sefydlog safonol Pwyllgorau Medr yn berthnasol, gan gynnwys sicrhau y rhoddir cyngor yn unol ag egwyddorion a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

3.2 Gall y Pwyllgor ddirprwyo unrhyw un neu rai o'i swyddogaethau i is-bwyllgor neu fwy nag un is-bwyllgor.

## 4 Aelodaeth a Phresenoldeb

4.1 Dylai'r Pwyllgor gynnwys hyd at 12 o aelodau. Bydd y Pwyllgor yn cael ei gadeirio gan aelod cyffredin o'r Bwrdd.

4.2 Bydd o leiaf un aelod o'r Pwyllgor yn rhywun yr ymddengys ei fod yn cynrychioli buddiannau pobl y darperir addysg drydyddol ar eu cyfer yng Nghymru. Bydd y Pwyllgor yn cael ei hysbysu gan lais dysgwyr ym mhob rhan o addysg drydyddol sydd o fewn ei gylch gwaith. Bydd hyn yn cael ei gyflawni gan Fforwm Llais Myfyrwyr / Dysgwyr[2].

4.3 O aelodau eraill y Pwyllgor, bydd mwyafrif yn bobl nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd, a bydd mwyafrif yn bobl sydd â phrofiad o ddarparu addysg drydyddol, neu sydd wedi dangos capasiti i wneud hynny. Bydd yr aelodaeth gyda'i gilydd yn adlewyrchu ehangder y darparwyr a'r ddarpariaeth sydd o fewn cylch gwaith y pwyllgor.

4.4 Y cworwm ar gyfer aelodau'r Pwyllgor yw 6 aelod, gan gynnwys y Cadeirydd neu ei enwebai, a rhaid iddo gynnwys aelod sy'n cynrychioli myfyrwyr.

4.5 Er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau, rhaid i Aelodau beidio â bod wedi gweithio i, na bod yn aelod o gorff llywodraethu, unrhyw ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru yn y 18 mis diwethaf.

4.6 Caniateir dirprwyon dim ond ar gyfer yr aelodau hynny a benodwyd mewn cymhwyster cynrychiolaidd, a'r rhai sydd hefyd yn bresennol.

4.7 Bydd y Cadeirydd yn adolygu effeithiolrwydd Aelodau'n flynyddol.

---

[2] yn amodol ar benderfyniadau gan Medr ynglŷn â chreu fforwm dysgwyr

## 5 Mynychder Cyfarfodydd

5.1 Fel arfer bydd o leiaf dri chyfarfod y flwyddyn, gan gydnabod y gall fod gofyniad am gyfarfodydd ychwanegol a hyblygrwydd i hysbysu'r Bwrdd wrth iddo ddatblygu ei rôl.

## 6 Awdurdod

6.1 Mae'r Pwyllgor yn gorff ymgynghorol heb unrhyw bwerau gweithredol. Ei bwerau penderfynu yw'r rhai a ddirprwyir iddo o bryd i'w gilydd gan y Bwrdd.

6.2 Mae'r Pwyllgor wedi ei awdurdodi i gael cyngor proffesiynol annibynnol os yw o'r farn bod hyn yn angenrheidiol, yn unol â Rheolau Sefydlog Pwyllgorau'r Bwrdd.

## 7 Adroddiadau

7.1 Bydd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu cylchredeg i gyfarfod nesaf y Bwrdd, yn dilyn eu cymeradwyo gan Gadeirydd y Pwyllgor.

7.2 Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Bwrdd ar gyflawni ei ddyletswyddau.

## 8 Adolygu

8.1 Bydd effeithiolrwydd y Pwyllgor, gan gynnwys ei Gylch Gorchwyl a'i aelodaeth, yn cael ei adolygu o leiaf yn flynyddol, ac o bosibl yn amlach ym mlynyddoedd cyntaf ei weithrediad i'w alluogi i ymateb i ddatblygiad rôl Medr. Bydd unrhyw newidiadau a gynigir yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd i gael eu cymeradwyo.

**Atodiad A**

**Cyfansoddiad y Pwyllgor Ansawdd**

**Aelodau**
Bydd y Pwyllgor yn cynnwys hyd at 12 o aelodau.

**Bwrdd Medr**
- 1 Aelod o'r Comisiwn (Cadeirydd)
- Hyd at ddau Aelod arall o Fwrdd Medr

**Dylai penodeion annibynnol fod â phrofiad o ddarparu addysg drydyddol, neu fod wedi dangos capasiti i wneud hynny. Rhaid i'r Aelodau hyn beidio â bod wedi gweithio i, na bod yn aelod o gorff llywodraethu, unrhyw ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru yn y 18 mis diwethaf** Hyd at 7 Aelod o ystod o ddarparwyr addysg drydyddol, sydd ar y cyd yn meddu ar arbenigedd sy'n cwmpasu ehangder darpariaeth drydyddol. Bydd hyn yn cynnwys penodeion o gyn-aelod o Bwyllgor Asesu Ansawdd CCAUC; addysg uwch; addysg bellach; prentisiaethau/dysgu seiliedig-ar-waith; ac awdurdodau lleol â phrofiad o chweched dosbarth mewn ysgolion a dysgu oedolion a'r gymuned.

**Person(au) i gynrychioli buddiannau dysgwyr mewn addysg drydyddol yng Nghymru**
- Dau gyd-gadeirydd y Fforwm Myfyrwyr/ Dysgwyr.

**Hefyd yn bresennol**
- Gall yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ac Estyn gael eu gwahodd i anfon cynrychiolydd i fod yn bresennol ar gyfer eitemau penodol mewn cyfarfodydd.
- Bydd Llywodraeth Cymru'n cael ei gwahodd i fod yn bresennol ar gyfer eitemau penodol mewn cyfarfodydd am gyfnod pontio, sef un flwyddyn i ddechrau.

**Swyddogion**
- I'w benderfynu

**Atodiad B**

## Diffiniad o'r cwmpas [3]

At ddibenion ei gylch gwaith a chwmpas ei weithgareddau, mae'r Pwyllgor Ansawdd yn diffinio "ansawdd" fel yr hyn sy'n cwmpasu pob agwedd ar brofiad y dysgwr fel dysgwr.

Dangosir tystiolaeth o ansawdd yn bennaf trwy'r deilliannau a gyflawnir gan ddysgwyr, gan gynnwys cwblhau cwrs, ennill cymwysterau, a chamu ymlaen i gyflogaeth neu astudiaethau pellach.

Mae'r gweithgareddau sy'n ategu deilliannau da i ddysgwyr yn cynnwys:

- ansawdd yr addysgu, gan gynnwys dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm
- dylunio a chyflwyno asesiadau i ategu cyflawniad dysgwyr
- ansawdd cymorth ar gyfer dysgu i alluogi pob dysgwr unigol i:
    - lwyddo ni waeth beth fo'u cefndir na pha nodweddion gwarchodedig sydd ganddynt
    - camu ymlaen ar ôl cwblhau'r rhaglen astudio, gan gynnwys cyflogadwyedd a pharatoi ar gyfer gyrfa
    - dysgu'n dda, gan hybu eu llesiant a'u lles
- trefniadau i hybu ymgysylltiad gweithredol â dysgu gan ddysgwyr, ac i ddeall eu bodlonrwydd ar eu profiad dysgu
- cefnogi dysgwyr sy'n dymuno dysgu Cymraeg a/neu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys y canlynol o fewn ei faes diddordeb:

- gweithgareddau i sicrhau y cydymffurfir â safonau trothwy
- gweithgareddau sy'n hybu gwelliant, uchelgais ac arloesi
- ansawdd ar lefel y system, yn ogystal ag ar lefel darparwyr unigol
- datblygiad proffesiynol cychwynnol a pharhaus i aelodau o'r gweithlu addysg drydyddol.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod prif gyfrifoldeb pob darparwr addysg drydyddol am sicrhau a gwella ei ansawdd a'i safonau ei hun.

Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys ansawdd profiad dysgwyr ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-radd. Nid yw'n cynnwys ansawdd ymchwil, sydd o fewn cylch gwaith Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi Medr.

[3] Cafodd y diffiniad o'r cwmpas ei gytuno gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2024.